Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Beth yw Eisteddfod?

What is an eisteddfod?

www.steddfota.org

1

Baneri'n chwifio ar bafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol.

2

Un o 'strydoedd' prysur Eisteddfod yr Urdd, 2013

ⓗ Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, 2013

Beth yw Eisteddfod?

Yn gryno, cystadleuaeth flynyddol rhwng adroddwyr, llefarwyr, beirdd, llenorion, dawnswyr, cantorion a cherddorion yw'r Eisteddfod fodern. Cynhelir eisteddfodau mawr a bach ledled Cymru ac mewn gwledydd fel Patagonia. Y rhai mwyaf yw'r Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Mae dau fath o gystadlu sef Cystadlaethau Llwyfan (e.e., dawnio, canu, llefaru, actio ac yn y blaen) a Chystadlaethau Cartref (e.e., gwaith llenyddol, celf a chrefft, gwyddoniaeth ac yn y blaen). Prif wobrau eisteddfodau yw Medal, Coron neu Gadair a gyflwynir i'r awdur buddugol mewn seremoni arbennig.

Yr Eisteddfod gyntaf un

Yr Eisteddfod gyntaf y gwyddom amdani yw Eisteddfod Aberteifi, Nadolig 1176. Fe'i cynhaliwyd gan Yr Arglwydd Rhys yn ei lys yn Aberteifi. Cyn ei chynnal roedd y tywysog wedi anfon cenhadon i bob cwr o Gymru i gyhoeddi'r ŵyl. I'r eisteddfod honno daeth nifer fawr o feirdd a chantorion i gystadlu ac mae'r traddodiad hwnnw wedi parhau hyd heddiw gydag eisteddfodau o bob math yn digwydd o flwyddyn i flwyddyn.

Mwy na chystadlu

I rai mae'r eisteddfod yn gyfle i gystadlu ac i wella eu crefft ac i eraill yn gyfle i ddod i wylio a gwrando ar dalent Cymreig o bob math. Ond mae nifer fawr o bobl yn mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol er mwyn cefnogi, heb ddiddordeb o gwbl mewn cystadlu na 'chwaith mynd i wylio'r cystadlu. Maen nhw'n hoffi crwydro'r Maes yn cymdeithasu ac yn mwynhau'r awyrgylch Cymreig hwyliog. Daw cannoedd o bobl yn flynyddol i aros ar Faes Carafannau'r Eisteddfod er mwyn bod yn agos at yr holl fwrlwm. Mae'r eisteddfod felly'n llawer mwy na dim ond llefaru, barddoni dawnsio a chanu!

3

4

Canu yn Eisteddfod Llandudoch

Lluniau gan West Wales Wedding and Portrait Photography

Logo Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2013

5

Stondin CEC ar y Maes

6

Lluniau awmrywiol o Eisteddfod Aberystwyth 2013.

Y gwahanol fathau o eisteddfod

Eisteddfod Ysgol
Mae nifer o ysgolion uwchradd a chynradd yng Nghymru yn cynnal eisteddfod bob blwyddyn. Gan amlaf yn neuadd yr ysgol y cynhelir hi a bydd y disgyblion i gyd yn mynd yno i fod yn rhan o'r gynulleidfa. Mae'r disgyblion, sy'n aelodau o 'dimau' neu 'dai' yn cystadlu ar bob math o gystadlaethau gyda'r athrawon yn gwneud y gwaith beirniadu. Dyma i rai fan cychwyn mynd i eisteddfodau i gystadlu. Mae'n draddodiad sy'n unigryw i ysgolion yng Nghymru.

Eisteddfod Dafarn
Cynhelir Eisteddfod Dafarn am sawl rheswm e.e, i godi arian at achos da mewn ardal. Ond gan amlaf mae eisteddfod dafarn yn cael ei threfnu er mwyn yr hwyl a'r elfen gymdeithasol yn unig. Yn wahanol i eisteddfod draddodiadol mewn eisteddfod dafarn mae'r cystadlaethau'n wahanol iawn fel dweud jôc, sgwennu penillion gwirion a chanu.

Eisteddfod Bentref
Ar hyn o bryd mae dros 120 o eisteddfodau pentref neu eisteddfodau 'lleol' yng Nghymru gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cynnal ar ddydd Sadwrn mewn neuadd bentref neu neuadd yr ysgol leol. Yn 2013 sefydlwyd dwy eisteddfod newydd ac mae sôn am sefydlu un newydd hefyd yn ardal Ardudwy.

Bydd rhai eisteddfodau'n cael eu cynnal dros gyfnod o brynhawn a gyda'r nos (e.e., Eisteddfod Clynnogfawr), rhai dros ddau neu dri diwrnod (e.e., Gŵyl Fawr Aberteifi ac Eisteddfod Llanbedr Pont Steffan). Yr hynaf o'r holl eisteddfodau lleol yw Eisteddfod Pandy Tudur a ddathlodd ei phen-blwydd yn 157 oed yn 2013. Cynhelir y rhan fwyaf o eisteddfodau pentref yn ystod gaeaf a'r gwanwyn ond ceir rhai mor gynnar â mis Medi a rhai ganol haf ym mis Gorffennaf.

Eisteddfodau'r Urdd
Bob blwyddyn mae miloedd o blant ledled Cymru yn cystadlu yn eisteddfodau'r Urdd. Man cychwyn y cyfan yw cymryd rhan mewn Eisteddfod Cylch pryd y bydd plant a phobl ifanc yn cystadlu yn erbyn rhai o'r un oedran â nhw o fewn eu hardal leol. Yna aiff yr enillwyr ymlaen i Eisteddfod Sir i gystadlu yn erbyn aelodau eraill o'r Urdd o fewn yr un sir â nhw ac o'r fan honno i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Cynhelir honno, fel yr Eisteddfod Genedlaethol mewn pebyll mawr, ar gaeau, yn hytrach na mewn neuadd.

Yr Eisteddfod Genedlaethol
Heb os dyma binacl yr holl eisteddfodau i gyd. Ar gaeau, mewn pebyll y cynhelir yr

Eisteddfod Genedlaethol a hynny mewn lleoliad gwahanol bob blwyddyn. Y prif babell yw'r Pafiliwn, pabell enfawr lle mae'r rhan fwyaf o'r cystadlu'n digwydd. Ar y 'Maes', sef y cae o amgylch y pafiliwn, mae cannoed o stondinau gan gwmnïau, cynghorau, clybiau, cymdeithasau ac yn y blaen. Ar y Maes hefyd mae Theatr, Pabell Wyddoniaeth, Pabell Lenyddol a phafiliwn Celf a Chrefft. Mae'r Maes felly yn debyg i bentref bychan gyda strydoedd o stondinau yma a thraw. Yn ogystal â'r stondinau mae llefydd yn gwerthu bwydydd o bob math a bariau cwrw gyda llwyfannau gerllaw lle mae bandiau'n perfformio am ddim drwy'r dydd.

I rai nad ydynt eisiau mynd i mewn i'r pafiliwn mae sgriniau teledu mawr ar y Maes yn dangos holl fwrlwm y cystadlu. Yn ogystal mae'r cyfryngau, y radio a'r teledu, yn dilyn hynt a helynt yr eisteddfod drwy'r dydd bob dydd.

Mae lleoliad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn newid bob blwyddyn gan ymweld ag ardal wahanol bob tro. Mae'r paratoadau yn yr ardaloedd hynny'n digwydd dwy flynedd cyn i'r eisteddfod gyrraedd.

Daw tua 160,000 o bobl i'r Eisteddfod Genedlaethol yn flynddol.

Eisteddfodau tramor

Er mai rhywbeth Cymreig yw eisteddfod, dros y blynyddoedd mae sawl eisteddfod wedi ei sefydlu mewn gwledydd eraill hefyd, e.e., Eisteddfod y Wladfa ym Mhatagonia, Eisteddfod Jersey a'r West Coast Eisteddfod a gynhelir yn Portland, Oregon. Yn rheiny, yn debyg iawn i eisteddfodau Cymraeg mae cystadlaethau canu a dawnsio yn ogystal â chystadlaethau llenyddol.

7 Offerynwyr ar y Faes yr Eisteddfod Genedlaethol

8 Llwyfan gerddoriaeth ar y Maes

Sut mae cystadlu mewn eisteddfod

Y Cystadlaethau
Mewn eisteddfodau fel arfer mae dau fath o gystadleuaeth:
• cystadlaethau ar y llwyfan yn ystod yr eisteddfod ei hun (e.e., canu, llefaru a dawnsio)
• cystadlaethau a gaiff eu beirniadu cyn i'r eisteddfod gychwyn (e.e., llenyddiaeth, a chelf a chrefft).

Mae'r drefn o gystadlu ar destunau cartref (neu gystadlaethau cartref) yn wahanol i'r drefn o gystadlu ar y llwyfan:

Cystadlaethau Cartref
Mae eisteddfodau lleol yn ogystal â'r eisteddfodau mawrion yn cyhoeddi taflen neu lyfryn sy'n cynnwys rhestr o'r holl gystadlaethau llwyfan a chartref. Rhaglen neu Rhestr Testunau yw'r enw ar y rhestr honno ac mae ar gael am fisoedd lawer cyn diwrnod yr eisteddfod. Os ydych am gystadlu mewn eisteddfod leol disgwylir i chi anfon eich gwaith i'r eisteddfod gan ddefnyddio ffugenw yn unig, nid eich enw go iawn. Yn yr un amlen neu barsel â'ch gwaith disgwylir i chi roi eich enw go iawn mewn amlen wedi ei selio. Os ydych yn ennill fe fydd yr ysgrifennydd yn agor eich amlen ac yn cysylltu â chi gyda'r newyddion da. Os na fyddwn yn llwyddiannus ni fydd neb byth yn gwybod eich bod wedi cystadlu – a cholli!

Cystadlaethau Llwyfan
Yn achos eisteddfod leol nid oes rhaid cofrestru i gystadlu dim ond cyrraedd ar y dydd gyad chopi o' r hyn rydych am ei berfformio i'r beirniad a'r cyfeilydd. Mewn eisteddfodau mwy (e.e. yr Eisteddfod Genedlaethol) mae'n rhaid cofrestru o flaen llaw drwy lenwi

9

Byrddau picnic tu allan i un o batios bwyd yr Eisteddfod Genedlaethol.

ffurflen gystadlu a'i hanfon at sywddogion yr eisteddfod. Pwrpas hynny yw cael syniad o flaen llaw o sawl un fydd yn cystadlu. Yna, ar ddydd y cystadlu mae'n rhaid mynd i Ragbrawf. Mae Rhagbrawf yn torri'r nifer o gystadleuwyr i lawr i'r 3 neu 4 gorau, a nhw'n unig fydd yn cael mynd ymlaen i berfformio ar lwyfan mawr y Pafiliwn.

Oedran cystadlu

Mae rhai'n poeni wrth fynd i eisteddfod y byddant yn gorfod cystadlu yn erbyn rhai hŷn a mwy profiadol na nhw. Fel arfer mewn eisteddfodau mae cystadlaethau 'n cael eu gosod ar gyfer oedrannau arbennig. Mae rhai adrannau ar gyfer y rhai dros 25oed neu dros 60oed. Mae rhywbeth mewn eisteddfod i bob oed, o blant oedran meithrin i bobl sydd yn mynd i oed mawr. Dyna sydd yn braf bod y genhedlaeth iau a hŷn yn cyd-ddathlu eu talent i gyd dan yr un to (neu yn yr un babell!).

Y Gwobrau

Gall gwobr mewn eisteddfod amrywio o dystysgrif yn unig i gannoedd o bunnau, coron arian a chadair fawr bren. Mae'r wobr yn dibynnu'n llwyr ar y gystadleuaeth a maint yr eisteddfod. Bydd eisteddfod leol yn rhoi gwobr ariannol hyd at tua £10 a'r Eisteddfod Genedlaethol wedyn yn cynnig gwobrau ariannol sydd yn gannoedd o bunnau. Ond prif wobr unrhyw eisteddfod yw Cadair neu Goron. Enillir Cadair neu Goron am farddoniaeth a chynhelir seremoni arbennig i goroni neu gadeirio'r bardd buddugol. Mae seremonïau hynny'n cynnwys presenoldeb Gorsedd y Beirdd, plant yn danwsio a chantorion yn canu clod i'r bardd buddugol. Mae'n gwbl unigryw i Gymru ac yn olygfa ryfeddol.

Seremoni Cadeirio'r bardd.

What is an Eisteddfod?

In a nutshell, the modern eisteddfod is a festival where competions in poetry, reciting, dance, drama, arts and craft, technology and much more are held. Eisteddfodau (more than one eisteddfod) are held in villages all over Wales and overseas. The largest of them are the National Eisteddfod, the National Urdd Eisteddfod and the Llangollen International Eisteddfod. Competitions can usually be grouped into two categories: Stage Competitions (e.g., dance, recitals, acting etc) and 'Home' Competitions (e.g., poetry, science, arts and craft). The main prizes in an eisteddfod are a Medal, a Crown or Chair awarded for literary prowess.
The history of the eisteddfod dates back to Christmas, 1176 when Arglwydd Rhys of Deheubarth held a competion for bards and musicians in his court in Aberteifi.

The different types of eisteddfod

School Eisteddfod (Eisteddfod Ysgol)
Many primary and secondary schools in Wales hold an eisteddfod. All manner of competitions are held and the teachers usually act as adjudicators. The school eisteddfod is often the first rung on an eisteddfod 'career'.

Pub Eisteddfod (Eisteddfod Dafarn)
The pub eisteddfod, held for one night, is a popular, lively and humorous event!

Village Eisteddfod (Eisteddfod Bentref)
There are over 120 local or village eisteddfodau in Wales that are usually held on a Saturday. Some last an afternoon and evening whilst others fill a whole Bank Holiday weekend. The eisteddfod 'season' is usually between September and mid July with a break in August when the National Eisteddfod is held.

Urdd Eisteddfod (Eisteddfod yr Urdd)
The Welsh youth association, called yr Urdd, hold area, county and a national eisteddfodau for anyone up to the age of 25. The event is televised and covered by radio all day, every day.

National Eisteddfod
Without doubt the pinnacle of all eisteddfodau is the National Eisteddfod that is held annually on the first week of August. Like the Urdd National Eisteddfod, the National Eisteddfod is held in tents, pavilions, stalls, and other temporary structures, on fields. The main pavilion is centrally located with 'streets' made up of hundreds of stalls creating a

village type atmosphere. The 'Maes" (as the eisteddfod field is called) is home, amongst other things, to a theatre, arts and crafts hall, a literature pavilion and a science and technology pavilion. The National Eisteddfod attracts around 160,000 people with many camping in tents and caravans on purposely set up camps close the Eisteddfod.

Competing in an eisteddfod

Usually there are two main types of competitions:
• competitions on stage (e.g., singing, dancing, instruments)
• competitions judged before the day of the eisteddfod (e.g., literature, arts and craft).

Competing differs between the two types.

'Home-work' competitions
Each eisteddfod publishes a booklet listing all the competitions. For anonymity purposes, competitors send in their work under a *nom de plume* along with a sealed envelope that includes their real name and address. Success means that the envelope is opened and the winner informed (for Chair and Crown competitions but not for smaller competitions). If success has not been achieved, the envelopes are discarded and no-one will get to know!

Stage Competitions
You can arrive on the day of a local eisteddfod and compete there and then. All that is needed is a copy, for the judges and accompanists, of the piece that you will perform. In larger eisteddfodau a form is usually completed informing the organisers that you intend to compete. Then, on the day of competition, competitors attend a Rhagbrawf (preliminary competition) to choose the best 3 or 4 who then go on to perform on the main eisteddfod stage.

Competition age groups
All eisteddfods have competitions for specific age groups. Competitions might be similar to 'Recital, ages 18-25, Hymn Signing - over 60 and Instrument Solo Years 5-6. An eisteddfod therefore holds fair competition for everyone irrespective of their age.

Prizes
Prizes in smaller eisteddfodau range from a few pounds to larger sums for choirs. The main prize of an eisteddfod is a Crown or Chair (which the poets keep) awarded to the best in a poetry competition.

Learners
Almost all eisteddfodau have classes or categories of competitions for Welsh learners.

Glossary of terms:

There are many terms and words in Welsh associated with eisteddfodau. Here are a few:

Y Maes = the eisteddfod field
Rhagbrawf (pl. Rhagbrofion) = Preliminary competition
Stondin = a stall
Rhestr Testunau = List of Competitions (published as a leaflet or booklet)
Cadeirio = to chair (chairing of the bard)
Coroni = to crown (Crowning of the bard)
Gorsedd = the Gorsedd of Bards
Eisteddfod Cylch = Local circle/area eisteddfod (Urdd events)
Eisteddfod Sir = County eisteddfod (Urdd event)
Wedi cael llwyfan = successful at the Rhagbrawf and through to the main stage

Pictures featured in this publication:

1. Banners flying on the National Eisteddfod pavilion.
2. A busy 'street' in the 2013 Urdd National Eisteddfod.
3,4. Singing at Eisteddfod Llandudoch, a local eisteddfod.
5. Cymdeithas Eisteddfodau Cymru's stall at the Urdd National Eisteddfod.
6. A montage of pictures form Eisteddfod Aberystwyth, 2013.
7. Musicians playing on the eisteddfod 'Maes'.
8. A typical performance stage.
9. Picnic tables near the food patio with the pavilion in the background.
10. A Chairing ceremony with the Gorsedd present.

ⓗ Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, 2013

Cymdeithas Eisteddfodau Cymru 2013
www.steddfota.org